# ‘Uffern Rhyfel!’ Brwydr Coed Mametz a’r Celfyddydau



## Gwybodaeth i athrawon

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

# Cyflwyniad

Mae’r adnodd hwn yn defnyddio deunydd a gasglwyd ar gyfer arddangosfa Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Uffern Rhyfel: Brwydr Coed Mametz a’r Celfyddydau, a gynhaliwyd yn 2016 – 100 mlynedd wedi’r frwydr. Mae’n edrych ar ymateb artistiaid a beirdd i un o’r brwydrau mwyaf ffyrnig a ymladdwyd gan filwyr Cymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Rhwng 7 a 12 Gorffennaf 1916, bu milwyr Adran 38 (yr ‘Adran Gymreig’) yn ymladd reoli’r goedwig yng ngogledd Ffrainc fel rhan o ymosodiad ehangach y Somme. Cafodd nifer fawr iawn o filwyr eu lladd. Mewn pum diwrnod Cafodd 4,000 o filwyr o’r Adran Gymreig eu lladd, eu hanafu, neu eu colli ar faes y gad.

Daw teitl Saesneg yr arddangosfa o gerdd ddirdynnol Robert Graves, *A Dead Boche*, 1917. Roedd yn un o nifer o feirdd ac artistiaid a brofodd Frwydr Coed Mametz drostynt eu hunain.

## Gwybodaeth i athrawon


# Nodiadau i athrawon

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn yn cynnwys:

- Adnoddau hanesyddol cynradd, gan gynnwys gweithiau celf a barddoniaeth gan feirdd ac artistiaid a ymladdodd yn y frwydr neu a ymatebodd iddi'n ddiweddarach.
- Cwestiynau defnyddiol i ysgogi ymateb gan ddisgyblion a datblygu dealltwriaeth o'r frwydr, y gwaith celf a'r cerddi. Mae'r rhain wedi'u hamlygu ar y sleidiau.
- Nodiadau am y beirdd a rhywfaint o'r gweithiau celf sydd wedi'u cynnwys yn y dogfennau 'Ffynhonnell' cysylltiedig.

# Ble mae Mametz?

Mae Mametz
yng ngogledd-
ddwyrain Ffrainc
(Map o'r Llyfrgell Genedlaethol)






amgueddfa cymru
national museum wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Coed Mametz

Roedd milwyr Almaenig profiadol â gynnau peiriant yn y goedwig oedd bron i filltir o led, milltir o ddyfnder ac yn drwchus dan goed a llwyni.




Map Rhyfel Byd Cyntaf o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

# Coed Mametz

Roedd yn rhaid i filwyr yr Adran Gymreig groesi tir agored, ymlaen trwy ddyffryn bas a dringo llethr i gyrraedd y goedwig.

Pam bod hyn yn ei gwneud hi mor anodd i'r milwyr ymosod ar y goedwig?



Llun o Goed Mametz heddiw. Mae'r ddraig goch yn gofeb i'r milwyr a frwydrodd ac a fu farw yno.

# Beirdd a welodd y frwydr â'u llygaid eu hunain

Gwybodaeth i athrawon

# Barddoniaeth

Bu’r Rhyfel Mawr yn ysbrydoliaeth i lifeiriant o lenyddiaeth a barddoniaeth. Drwy ysgrifennu, roedd y milwyr yn mynegi eu hemosiynau, boed yn wladgarwch, arwriaeth ac edmygedd neu arswyd, dicter a thristwch. Cafodd nifer o adroddiadau llygad-dystion eu cofnodi hefyd.

Ffynhonnell 1

Dewiswch gerdd sydd wedi’i rhestru yn *Ffynhonnell 1*. Cafodd rhain eu hysgrifennu gan filwyr adeg Brwydr Coed Mametz. Darllenwch, gwnewch nodiadau ac adrodd eich sylwadau am y cerddi i’r dosbarth cyfan.

# Ymateb i Mametz

Yn syth wedi i Frwydr Mametz ddod i ben, dechreuwyd dadansoddi'r frwydr o safbwynt milwrol a chafodd cyfraniad yr adran Gymreig ei gloriannu. Er bod llawer o bobl yn canmol ymddygiad a dewrder milwyr Cymru, roedd eraill yn cwestiynu eu hymddygiad a llwyddiant y frwydr.

## Mametz Wood.

Danzig Alley and White Trench were dug in the chalk, Pommier's Redoubt and Fritz Trench in sticky clay, and during the days that followed heavy rains made these trenches anything but pleasant. Here the Welsh waited for five days, and from Danzig Alley on the Friday (July 7) witnessed the attempts to take Quadrangle Support and Contalmaison, whilst in front of Mametz Wood was being enacted in the rain and mud a tragedy which was to be felt all over the eastern end of South Wales.

*Cambrian Daily Leader*

Hydref 1918. Detholiad ac addasiad.

(Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

## The Afternoon.

In the afternoon the advance was resumed, and a body of Germans between 80 and a 100 strong—the garrison that had caused the trouble to the left flank—laid down their arms to the 13th Royal Welsh Fusiliers. That afternoon the wood was cleared on the left beyond the railway, and our men reached the fields on the far side, but owing to the German resistance on the right they had once more to withdraw into the wood.


Meanwhile below the wood a diminishing army of stretcher-bearers was performing wonderful feats of endurance and gallantry in an attempt to deal with an ever-growing crowd of wounded. Over the ridge which is surmounted by White

# Gwybodaeth i athrawon



national museum wales amgueddfa cymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Roedd Lloyd George yn awyddus i nodi’r hyn a ystyriai’n llwyddiant mawr cyntaf y bataliwn Gymreig a sefydlwyd ganddo.



Paentiad o David Lloyd George gan Christopher Williams ym 1917

(Amgueddfa Cymru)

# Gwybodaeth i athrawon


# Ymateb beirdd ac artistiaid diweddarach i'r frwydr

Gwybodaeth i athrawon

# David Lloyd George wnaeth gomisiynu'r artist Cymreig, Christopher Williams

Paentiodd Christopher Williams ei waith enfawr, *Cyrch yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz*, i goffáu'r frwydr. Bu'n cael ei arddangos ym mharlwr 10 Stryd Downing cyn cael ei symud i Amgueddfa Genedlaethol Cymru (fel y'i gelwid bryd hynny). Teithiodd Williams i Ffrainc er mwyn gwneud brasluniau fel hwn ar gyfer y paentiad terfynol.






Pam ydych chi'n meddwl fod rhaid i'r sensor basio brasluniau a phaentiadau Christopher Williams?

## Gwybodaeth i athrawon

www.amgueddfacymru.ac.uk/dysgu

# Christopher Williams (1873 – 1934), *Y Cymry yng Nghoed Mametz*



## Gwybodaeth i athrawon

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

- Edrychwch ar y paentiad *Y Cymry yng Nghoed Mametz*.
- Sut ydych chi'n teimlo wrth edrych ar y paentiad?
- O edrych ar y paentiad, beth sy'n dangos bod gan filwyr yr Almaen adnoddau gwell ar gyfer y frwydr?
- Edrychwch ar y brasluniau yn yr arddangosfa neu Ffynhonnell 3. Sut wnaeth y rhain helpu Christopher Williams i greu y paentiad terfynol?
- Ydych chi'n meddwl bod y paentiad hwn yn bortread go iawn neu'n ail-gread dramatig o'r hyn ddigwyddodd ar faes y frwydr?

# Barddoniaeth

Cofnododd rhai milwyr eu profiadau ym Mrwydr Mametz bron yn syth, tra cymerodd eraill flynyddoedd i adrodd eu hanes.

Mae'r frwydr yn dal i ennyn ymateb heddiw, ac mae pobl oedd heb eu geni ar y pryd yn cael eu denu i ymateb iddi. Yn ddiweddar mae'r bardd ac awdur Owen Sheers wedi ysgrifennu cerdd a drama am y frwydr.

Ffynhonnell 1

Dewiswch gerdd o *Ffynhonnell 1* a ysgrifennwyd ryw bryd ar ôl y frwydr. Darllenwch, gwnewch nodiadau ac adrodd eich sylwadau am y cerddi i'r dosbarth cyfan

# Caneuon ac emynau

Mae adroddiadau di-ri am filwyr Cymreig yn canu adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, ac rydyn ni'n dal i gysylltu caneuon fel *Keep the Home Fires Burning* â'r Rhyfel hyd heddiw.

## Pam oedd y milwyr yn cydganu wrth baratoi i fynd i ryfel?

Gwybodaeth i athrawon



amgueddfa cymru national museum wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae'n bosib bod gan emynau a chaneuon lawer o fanteision. Efallai eu bod nhw'n:

- Helpu i godi calon ac uno'r milwyr.
- Cynnig dihangfa rhag sŵn y gynau a'r bomiau.
- Atgoffa'r milwyr o'u cartref a'u cynefin.

# Sosban Fach

Roedd yr arlunydd a'r bardd David Jones (1895-1974) yn cofio clywed y 14eg Bataliwn yn canu *Iesu, Cyfaill f'enaid cu* pan oedden nhw ar fin wynebu'r gelyn ym Mametz, a Robert Graves yn cofio clywed milwyr o Gymru'n canu emynau yn hytrach na chaneuon poblogaidd:

*"…instead of the usual music-hall songs they sang Welsh hymns, each man taking a part. The Welsh always sang when pretending not to be scared; it kept them steady. And they never sang out of tune."*

(Detholiad o: *Goodbye to All That* gan Robert Graves)

Darllenwch y gerdd *Sospan Fach* a ysgrifennodd Robert Graves ym 1919 (Ffynhonnell 1)

## Gwybodaeth i athrawon

Fel rhan o ddigwyddiad yn gysylltiedig â'r arddangosfa Uffern Rhyfel: Brwydr Coed Mametz a'r Celfyddydau, cynhaliwyd digwyddiad cymunedol 'Dewch i Ganu' oedd yn cynnwys caneuon o'r Rhyfel Byd Cyntaf fel 'Sosban Fach'.




# Gwybodaeth i athrawon

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

# Darganfod Mwy

- Gwnewch ymchwil eich hun i ddarganfod mwy o ganeuon oedd yn boblogaidd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Gallech ddysgu'r caneuon a'u perfformio o flaen y dosbarth.



amgueddfa cymru national museum wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

# Beth yw arwyddocâd Brwydr Mametz heddiw?



- Mae enw Brwydr Mametz yn enwog yng Nghymru o hyd. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod y frwydr yma'n arbennig o greulon.
- Doedd sgiliau a lefel hyfforddiant byddin Prydain ddim cystal â'r Almaenwyr a gwirfoddolwyr oedd y rhan fwyaf o'r milwyr. Gyda'i hyfforddiant sylfaenol, cawsant orchymyn i gerdded yn hytrach na rhedeg ar draws tir agored ac i fyny'r llethr wrth i filwyr proffesiynol yr Almaen saethu gynnau peiriant nerthol o'r goedwig.
- Mae teimlad o barchedig ofn a balchder wrth gofio am aberth y Cymry. Mae safle Brwydr Mametz yn symbol o'r presenoldeb Cymreig ar Ffrynt y Gorllewin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Effeithiwyd ar deuluoedd 4000 o filwyr a gafodd eu lladd, eu hanafu, neu eu colli ar faes y gad. Mae gan eu disgynyddion gysylltiadau cryf â Mametz hyd heddiw.

*“Seriwyd enw Mametz Wood ar ein cof. Wydden ni byth beth yn union ddigwyddodd, ond ei fod yn affwysol o erchyll.”*

(cyfieithiad o eiriau Elizabeth Thomas – bu Jack ei brawd yn ymladd yno)